OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif. 1723 (Cy. 167)

# CATREFI SYMUDOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygio Atodlen 1 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *10 Gorffennaf 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *10 Gorffennaf 2013* |

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 2A o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983(**1**) ac adran 229(3) a (4) a 250(2) o Ddeddf Tai 2004(**2**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy.

Yn unol ag adran 2A(5) o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r cyrff hynny sydd, yn eu tyb hwy, yn cynrychioli'r buddiannau yr effeithir yn sylweddol arnynt gan y Gorchymyn ac â phersonau eraill a oedd, yn eu tyb hwy, yn briodol.

Yn unol ag adran 2A(6) o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 ac adran 250(6) o Ddeddf Tai 2004 cafodd drafft o'r Gorchymyn hwn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad((**3**).

Yn unol â pharagraff 24 o Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007(**4**) mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd.

(**1**) 1983 p.34 . Mewnosodwyd adran 2A gan adran 208(1) o Ddeddf Tai 2004 (p.34). Mae pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 2A yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30(1) a (2)(c) o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 2004 p. 34. Mae pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 229 a 250 yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) , a pharagraff 30(1) a (2)(c) o Atodlen 11 iddi. *Gweler* y diffiniad o "appropriate national authority" yn adran 261(1) o Ddeddf 2004.

(**3**) Mae swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru o wneud Gorchymyn o dan adran 2A o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 a Gorchymyn o dan adran 229(3) o Ddeddf Tai 2004 yn sylweddol yr un fath â swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hynny. Yn rhinwedd paragraff 34(2) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae adran 2A(6) o Ddeddf 1983 ac adran 250(6) o Ddeddf 2004 yn gymwys i arfer, gan Weinidogion Cymru, eu swyddogaeth o wneud gorchymyn o dan adran 2A o Ddeddf 1983 ac adran 229(3) o Ddeddf 2004 fel pe bai unrhyw gyfeiriad at y naill neu'r llall o ddau Dŷ'r Senedd yn gyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**4**) 2007 p.15.